# Polisi Anghenion Gofal Iechyd Ysgol Gyfun Gŵyr

## 1. Egwyddorion allweddol

Mae staff a chorff llywodraethu Ysgol Gyfun Gŵyr yn ymrwymedig i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd er mwyn iddynt gael mynediad llawn at addysg, gan gynnwys pob gweithgaredd oddi ar y safle ac addysg gorfforol.

Rydym yn gweithio gyda rhieni/gofalwyr, dysgwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol i sicrhau bod anghenion y dysgwr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu deall a'u cefnogi'n effeithiol. Rydym yn gwneud hyn drwy wrando ar farn a dymuniadau'r dysgwr a'r rhiant yn ogystal â chyngor gweithwyr addysg ac iechyd proffesiynol.

Lle bo'n bosib, rydym yn cefnogi'r dysgwr i feithrin dealltwriaeth a magu hyder er mwyn iddo allu rheoli ei anghenion gofal ei hun yn fwyfwy, gan ddibynnu ar ei allu i wneud hynny.

Rydym yn gwneud yn siŵr bod staff yn cael mynediad i hyfforddiant priodol er mwyn cefnogi anghenion gofal iechyd dysgwyr yn gywir.

Rydym yn deall bod hawl gan bob dysgwr ag anghenion gofal iechyd i gael addysg lawn ac rydym yn rhoi ystyriaeth briodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel ysgol sy'n parchu hawliau. Wrth wneud trefniadau i ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwr, rydym yn ystyried yr effaith ar ei addysg, ei gyrhaeddiad a'i les. Mae unrhyw drefniadau yn ystyried dyletswyddau diogelu ehangach hefyd wrth geisio sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad a'i fod yn mwynhau'r un cyfleoedd.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym yn gwneud addasiadau rhesymol i gydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf er mwyn peidio â gwahaniaethu yn erbyn dysgwyr anabl.

## 2. Gofynion cyfreithiol yr ysgol

Rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol hyrwyddo lles pob dysgwr yn yr ysgol o dan Adran 21(5) Deddf Addysg 2002. Rhaid iddo wneud trefniadau hefyd i hyrwyddo a diogelu lles pob plentyn yn yr ysgol ym mhob agwedd ar fusnes yr ysgol (Adran 175(2) Deddf Addysg 2002). Wrth gyflawni'r dyletswyddau o dan Adran 175 Deddf Addysg 2002, **rhaid** i gyrff llywodraethu ystyried arweiniad gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

Mae'r cyrff llywodraethu hefyd yn destun y dyletswyddau a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Gellir ystyried rhai dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn anabl at ddibenion y Ddeddf. Rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol wneud addasiadau rhesymol i sicrhau y gall dysgwyr anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol. Rhaid iddo hefyd baratoi a gweithredu cynllun hygyrchedd sy'n nodi'r hyn y mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud i gynyddu gallu dysgwyr anabl i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol.

Rhaid i'r corff llywodraethu a'r Pennaeth hefyd ystyried Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n ceisio sicrhau bod y gofal a'r gefnogaeth a roddir i blant a phobl ifanc yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn CCUHP. Mae lles a'r canlyniadau y mae pobl am eu cyflawni wrth wraidd y ddeddfwriaeth, sy'n defnyddio

"model pobl" sy'n canolbwyntio ar drefniadau sy'n unigryw i anghenion y plentyn neu'r person ifanc. Dylai'r trefniadau fod yn integredig ac yn gydlynol hefyd.

## 3. Rolau a chyfrifoldebau

### Ysgol

#### a. Corff Llywodraethu

Mae'r corff llywodraethu'n gyfrifol am oruchwylio datblygu a gweithredu'r trefniadau canlynol:

i. Cydymffurfio â'r dyletswyddau statudol perthnasol, gan gynnwys y rheiny o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
ii. Hyrwyddo lles dysgwyr gan gynnwys darparu mynediad at wybodaeth a deunydd i ddysgwyr er mwyn hyrwyddo lles ysbrydol a moesol ac iechyd corfforol a meddygol (Erthygl 17 CCUHP).
iii. Cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r gwydnwch emosiynol angenrheidiol i gynnal eu hawliau hwy, a hawliau pobl eraill.
iv. Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n cymryd rhan yn y trefniadau i gefnogi anghenion gofal iechyd dysgwyr yn glir a bod pawb sy'n cymryd rhan yn eu deall, gan gynnwys dirprwyo unrhyw gyfrifoldebau neu dasgau'n briodol i bennaeth, aelod o staff neu weithiwr proffesiynol fel y bo'n briodol.
v. Gweithio ar y cyd â rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i ddatblygu trefniadau gofal iechyd er lles gorau'r dysgwr.
vi. Datblygu, gweithredu a chyfathrebu trefniadau effeithiol i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Dylai hyn gynnwys polisi ar anghenion gofal iechyd a chynlluniau gofal iechyd unigol ar gyfer dysgwyr penodol, lle bo'n briodol.
vii. Sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer datblygu, monitro ac adolygu trefniadau anghenion gofal iechyd.
viii. Sicrhau bod y trefniadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill, megis iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, asesiadau risg, Deddf Diogelu Data 1998, mesurau diogelu a gweithdrefnau argyfwng.
ix. Sicrhau bod systemau cadarn ar waith i ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd a digwyddiadau difrifol, ar gyfer gweithgareddau ar y safle ac oddi ar y safle, gan gynnwys mynediad i feddyginiaeth frys megis anadlwyr neu binnau adrenalin.
x. Sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael yr hyfforddiant priodol.
xi. Sicrhau bod yswiriant priodol ar gael, y cydymffurfir ag unrhyw amodau a bod staff yn deall ystyr hyn iddynt hwy wrth gefnogi dysgwyr.
xii. Meddu ar bolisi atal heintiau sy'n adlewyrchu'n llawn y gweithdrefnau a nodir yn yr arweiniad presennol[1]. Mae arweiniad pellach ar gael ar y wefan: [Canllawiau ar Atal Rheoli Heintiau Cymru Gyfan ar gyfer Lleoliadau Addysg]

[1] http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Cyfieithiad%20%20-%20All%20Wales%20Infection%20Prevention%20and%20Control%20Guidance%20for%20Educational%20Settings%20CYMRAEG%20May%202017%20FINAL.output.pdf

## b. Pennaeth

Dylai'r Pennaeth sicrhau bod trefniadau i ddiwallu anghenion gofal iechyd ei ddysgwyr yn cael eu datblygu'n ddigonol a'u rhoi ar waith yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys:

i. Gweithio gyda'r corff llywodraethu i sicrhau y cydymffurfir â dyletswyddau statudol perthnasol wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
ii. Sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith i ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwr yn cael eu deall yn llawn gan bob parti perthnasol, eu bod yn cael eu rhoi ar waith a bod y fath gamau gweithredu'n cael eu cynnal.
iii. Sicrhau bod y gefnogaeth a roddir ar waith yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr unigol ac yn eu diwallu, a adwaenir hefyd fel cynllunio sy'n canolbwyntio ar y person[2].
iv. Ehangu ymwybyddiaeth o anghenion gofal iechyd ar draws yr ysgol yn unol â hawl y dysgwr i breifatrwydd. Gall hyn gynnwys cefnogaeth, staff arlwyo a chyflenwi, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr a dysgwyr eraill.
v. Penodi aelod o staff a enwir sy'n gyfrifol am ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd, ymgysylltu â rhieni/gofalwyr, dysgwyr, y gwasanaeth tiwtora cartref, yr awdurdod lleol, y gweithiwr allweddol ac eraill sy'n cymryd rhan yng ngofal y dysgwr.
vi. Sicrhau bod nifer digonol o staff hyfforddedig ar gael i roi'r trefniadau a nodir yn yr holl gynlluniau iechyd annibynnol ar waith, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer argyfyngau ac absenoldeb staff.
vii. Cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygu cynlluniau iechyd annibynnol.
viii. Sicrhau bod gan ddysgwyr amgylchedd addas a gweddus i ddiwallu eu hanghenion gofal iechyd eu hunain, e.e. toiledau preifat ar gyfer cathetreiddio.
ix. Gwirio gyda'r awdurdod lleol a yw gweithgareddau penodol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu hyswirio'n briodol a sicrhau bod staff yn ymwybodol o unrhyw derfynau ar y gweithgareddau sy'n cael eu hyswirio.
x. Sicrhau bod pob dysgwr ag anghenion gofal iechyd yn cael ei gysylltu â gwasanaeth cyngor iechyd yr ysgol.
xi. Sicrhau pan fydd dysgwr yn cymryd rhan mewn lleoliad profiad gwaith neu rywbeth tebyg y cytunir ar gefnogaeth gofal iechyd addas ac y'i rhoddir ar waith.
xii. Darparu adroddiadau blynyddol i'r corff llywodraeth am effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith i ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwyr.
xiii. Sicrhau nad yw dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu heithrio o weithgareddau y byddai ganddynt hawl fel arfer i gymryd rhan ynddynt, heb reswm clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
xiv. Hysbysu'r awdurdod lleol (ALl) pan fydd dysgwr yn debygol o fod i ffwrdd o'r ysgol am gyfnod sylweddol, e.e. tair wythnos (naill ai mewn un cyfnod neu dros y flwyddyn academaidd) oherwydd ei anghenion gofal iechyd. Yn y pen draw, mae'r hyn sy'n cymhwyso cyfnod o absenoldeb fel 'sylweddol' yn y cyd-destun hwn yn dibynnu ar yr amgylchiadau ac a all y sefydliad gynnig addysg

[2] learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150909-reviews-toolkit-en.pdf

addas i'r dysgwr. Gall cyfnodau byrrach o absenoldeb fod yn sylweddol, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.

xv. Hysbysu'r ALl am newidiadau i anghenion gofal iechyd dysgwr neu ddiweddariadau yn y cynllun gofal iechyd unigol. Dylid anfon newidiadau i gynlluniau gofal iechyd unigol at yr Uwch-athro Arbenigol, Tŷ'r Cocyd, Heol y Cocyd. Dylid trafod newidiadau i ddarpariaethau ar Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig dysgwr fel rhan o adolygiad o ddatganiad y dysgwr a'u hanfon at y Tîm Cronfa Ddata, Canolfan Ddinesig, Abertawe SA1 3SN.

xvi. Ystyried Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dylai ysgolion fod yn hollol ymwybodol o'r ymagwedd hon a sicrhau y darperir cymorth i ddysgwyr drwy ddefnyddio ymagwedd gyfannol.

**c. Athrawon, staff cefnogi ac aelodau eraill o staff**

Gellir gofyn i unrhyw aelod o staff yn yr ysgol ddarparu cefnogaeth i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys cynorthwyo neu oruchwylio'r broses o roi meddyginiaethau. Mae'r rôl hon yn hollol wirfoddol oni bai ei bod yn rhan o gontract, amodau a thelerau'r aelod o staff neu gynllun swydd y cytunir arno ar y cyd. Bydd staff sy'n gwirfoddoli neu sydd â chontract i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael hyfforddiant digonol ac addas i gyrraedd y lefel angenrheidiol o gymhwysedd.

Yn ogystal, bydd yr ysgol yn sicrhau bod staff yn:

i. Deall anghenion gofal iechyd, polisïau a threfniadau'r ysgol yn llwyr.

ii. Gwybod pa ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd mwy difrifol neu gronig a'u bod yn gyfarwydd â chynlluniau gofal iechyd unigol y dysgwyr hyn, lle y bo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys gwybod sut i gyfathrebu â rhieni/gofalwyr a beth yw'r sbardunau ar gyfer cysylltu â hwy, megis pan fydd y dysgwr yn dost, yn gwrthod cymryd meddyginiaeth neu'n gwrthod gweithgareddau penodol oherwydd ei anghenion gofal iechyd.

iii. Ymwybodol o arwyddion, symptomau a sbardunau cyflyrau meddygol cyffredin sy'n bygwth bywyd a'r hyn y dylid ei wneud mewn argyfwng. Mae hyn yn cynnwys gwybod pwy yw'r swyddogion cymorth cyntaf a cheisio eu cymorth os bydd argyfwng meddygol.

iv. Deall gweithdrefnau argyfwng yr ysgol yn llwyr a bod yn barod i weithredu mewn argyfwng.

v. Gofyn am sylwadau dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr a gwrando arnynt. Dylid ystyried y rhain wrth roi cefnogaeth ar waith.

vi. Sicrhau bod dysgwyr (neu eu ffrindiau) yn gwybod pa bobl i'w hysbysu os byddant yn teimlo'n dost, os oes angen cefnogaeth arnynt neu os oes newidiadau i gefnogaeth.

vii. Gwrando ar bryderon dysgwyr os byddant yn teimlo'n dost ar unrhyw adeg ac ystyried yr angen am gymorth meddygol (yn enwedig os adroddir am anawsterau anadlu).

viii. Sicrhau nad yw dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu heithrio o weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt heb reswm clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys unrhyw deithiau/ymweliadau allanol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad i'w meddyginiaeth a bod aelod hyfforddedig o staff yn bresennol i gynorthwyo lle bo angen.

ix. Gwybod am broblemau bwlio a lles emosiynol dysgwyr ag anghenion gofal iechyd a bod yn barod i ymyrryd yn unol â pholisi'r ysgol.
x. Gwybod y gall anghenion gofal iechyd effeithio ar allu dysgwr i ddysgu a darparu cymorth ychwanegol pan fo angen.
xi. Cefnogi dysgwyr sydd wedi bod yn absennol a'u cynorthwyo i wneud gwaith a gollwyd – gall hyn gynnwys gweithio gyda rheini/gofalwyr a gwasanaethau arbenigol.
xii. Rhoi gwybod i rieni/ofalwyr am sut mae'r anghenion gofal iechyd yn effeithio ar y dysgwr yn yr ysgol. Gall hyn gynnwys adrodd am unrhyw ddirywiad, pryderon neu newidiadau i arferion dysgwr neu staff.

### ch. Rhieni/gofalwyr/dysgwyr

Mae dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn mynd ati i gymryd rhan yn y broses o gynllunio cefnogaeth a rheolaeth o ran anghenion gofal iechyd ac mae ganddynt gyfleoedd i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar iechyd dysgwyr. Darperir gwybodaeth addas i rieni/ofalwyr a dysgwyr sy'n hanfodol i iechyd a datblygiad y dysgwr.

Bydd rhieni/gofalwyr yn:

i. Derbyn diweddariadau ynghylch problemau gofal iechyd/newidiadau sy'n digwydd yn yr ysgol.
ii. Cymryd rhan annatod yn y broses o greu, llunio ac adolygu cynllun gofal iechyd unigol (os oes un). Efallai fod rhieni a dysgwyr yn y sefyllfa orau i ddarparu gwybodaeth am sut mae eu hanghenion gofal iechyd yn effeithio arnynt. Dylent gymryd rhan lawn mewn trafodaethau am sut diwellir anghenion gofal iechyd dysgwyr yn yr ysgol a chyfrannu at lunio cynlluniau iechyd unigol a chydymffurfio â hwy.
iii. Darparu gwybodaeth ddigonol a chyfredol i'r ysgol am anghenion gofal iechyd, gan gynnwys unrhyw arweiniad ar roi meddyginiaethau a/neu driniaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Lle y bo'n briodol, dylid annog dysgwyr a'u galluogi i reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain.
iv. Hysbysu'r ysgol am unrhyw newidiadau, megis y math o feddyginiaeth, y dos neu'r dull o'i rhoi.
v. Darparu meddyginiaethau perthnasol cyn y dyddiad defnyddio, wedi'u labelu'n gywir â dos ysgrifenedig a chyfarwyddiadau ynghylch sut i'w rhoi.
vi. Sicrhau y gellir cysylltu ag oedolyn a enwebir ar bob adeg ac y caiff yr holl ffurflenni angenrheidiol eu llenwi a'u llofnodi.
vii. Hysbysu'r ysgol os bydd gan eu plentyn glefyd neu gyflwr heintus pan fydd yn bresennol.

Dylai dysgwr:

i. Hysbysu rhieni/gofalwr neu aelod o staff os yw aelod o staff yn teimlo'n dost.
ii. Cymryd rhan wrth lunio ei gynllun gofal iechyd unigol a chytuno arno, pan fo'n briodol.
iii. Bod yn ofalus wrth gludo meddyginiaethau i'r ysgol ac oddi yno, a pheidio â'u rhannu ag eraill.
iv. Cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch rhannu/cyfrinachedd gwybodaeth bersonol.

### d. Awdurdod Lleol

Mae'r awdurdod lleol (ALI) yn gweithio gydag ysgolion, byrddau iechyd lleol, rhieni/gofalwyr a dysgwyr i sicrhau y nodir anghenion gofal iechyd ac y gwneir trefniadau priodol i ddiwallu'r anghenion hynny.

Bydd yr awdurdod lleol yn:

i. Gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn derbyn addysg addas.
ii. Gwneud trefniadau i ddarparu addysg addas lle na fyddai dysgwr o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg arall am unrhyw gyfnod oherwydd ei iechyd.
iii. Gwneud trefniadau rhesymol i sicrhau na fydd plant a phobl ifanc anabl dan anfantais sylweddol o'u cymharu â'u cyfoedion. Bydd hyn yn cynnwys datblygu strategaeth hygyrchedd.
iv. Hyrwyddo cydweithredu rhwng cyrff gwahanol er mwyn gwella lles corfforol a meddyliol dysgwyr, gan gynnwys gwneud trefniadau i rannu gwybodaeth.
v. Darparu gwasanaethau cwnsela rhesymol i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed a dysgwyr mewn ysgolion cynradd.
vi. Darparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad, gan gynnwys sut mae diwallu anghenion hyfforddiant staff ysgolion, er mwyn i gyrff llywodraethu allu sicrhau'r gefnogaeth a bennir yn y cynllun gofal iechyd unigol.
vii. Darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Cyngor Abertawe.

### dd. Gweithwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill

Gall gweithwyr iechyd proffesiynol unigol - meddygon teulu, paediatregwyr, therapyddion iaith a lleferydd, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, dietegwyr a nyrsys arbenigol - ddarparu cyngor a chefnogaeth ynghylch iechyd. Gall y nyrs ysgolion a enwir ar gyfer ysgolion prif ffrwd roi cyngor a chyfeirio i gydweithwyr iechyd arbenigol addas. Yn ogystal, gall cyrff gwirfoddol y trydydd sector ddarparu cyngor a chefnogaeth ymarferol. Gall ymgysylltu'n rhagweithiol â gwasanaethau arbenigol ddarparu cymorth ymarferol wrth ysgrifennu a rhoi cynlluniau iechyd unigol ar waith. Gall y gwasanaeth gynnig y mathau canlynol o gefnogaeth:

i. Cynnig cyngor ar ddatblygu cynlluniau iechyd unigol
ii. Cynorthwyo wrth nodi'r hyfforddiant y mae ei angen ar y sefydliad addysg i roi cynlluniau iechyd unigol ar waith yn llwyddiannus
iii. Cefnogi staff i roi cynllun gofal iechyd unigol dysgwr ar waith a chydgysylltu â gweithwyr gofal iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector proffesiynol eraill
iv. Darparu adnoddau hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth, gan gynnwys dolenni fideo

## 4. Creu amgylchedd hygyrch

Mae'r ysgol a'r corff llywodraethu'n ymrwymedig i greu amgylchedd cynhwysol a hyblyg. Nodir ein cynlluniau ar gyfer gwella hygyrchedd yr ysgol yng Nghynllun Hygyrchedd yr ysgol.

Rydym hefyd yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau y gall dysgwyr anabl gael mynediad i bob agwedd ar fywyd yr ysgol drwy weithio gyda'r ALI i sicrhau bod cymhorthion cynorthwyol, gwasanaethau a staff hyfforddedig addas ar gael.

### a) Pob gweithgaredd oddi ar y safle

Rydym yn mynd ati i gefnogi pob dysgwr ag anghenion gofal iechyd ym ymhob gweithgaredd oddi ar y safle, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau preswyl i sicrhau cyfranogiad llawn gan bob dysgwr.

Mae staff yn ymwybodol o'r modd y gall anghenion gofal iechyd dysgwr effeithio ar gyfranogiad ac yn ceisio cynnwys unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai'n cynyddu lefel cyfranogiad y dysgwr. [3] Rydym yn rhannu gwybodaeth briodol â darparwyr oddi ar y safle yn ôl yr angen, os ceir caniatâd rhieni a gofalwyr, ac yn gofyn am farn y dysgwr hefyd.

### b) Rhyngweithio cymdeithasol

Rydym yn mabwysiadu ymagwedd ragweithiol at sicrhau bod dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau cymdeithasol strwythuredig a distrwythur, megis yn ystod seibiannau, clwb brecwast, cynyrchiadau, clybiau ar ôl ysgol ac ymweliadau preswyl. Mae staff yn cael gwybod am rwystrau posib i gynhwysiad ac yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau cynhwysiad.

Mae gennym ethos cryf sy'n hyrwyddo cynhwysiant a hawliau'r plentyn ac yn defnyddio ymagweddau adferol at fynd i'r afael â phroblemau bwlio ac eithrio cymdeithasol posib.

### c) Ymarfer corff a gweithgareddau corfforol

Rydym yn deall ei fod yn bwysig bod pob dysgwr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ac mae staff yn addasu chwaraeon a gweithgareddau eraill i sicrhau eu bod yn hygyrch i bob dysgwr, gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol a chwaraeon tîm.

Rydym yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd dysgwyr wrth gynllunio gweithgareddau corfforol ac yn gofyn am farn dysgwyr, eu rhieni/gofalwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol wrth gynllunio. Lle bo'n bosib, rydym yn sicrhau bod pob gweithgaredd corfforol yn hygyrch i bob dysgwr.

### ch) Rheoli bwyd

Rydym yn wyliadwrus i ystyried anghenion deietegol dysgwyr ag anghenion gofal iechyd a gall staff ein cegin ddarparu rhestrau o gynhwysion ac arddangos unrhyw alergenau posib ar gyfer y prydau bwyd y maent yn eu cyflenwi. Rydym yn deall y gall

[3] Gall y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb fod yn berthnasol, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.

fod angen i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd fwyta ac yfed yn y dosbarth ac mae byrbrydau ar gael.

Caiff gofynion deietegol a bwyta dysgwyr unigol eu nodi yn eu cynlluniau gofal iechyd unigol a'u cyfleu i'r holl staff.

### d) Asesiadau risg

Caiff pob gweithgaredd yn yr ysgol asesiad risg priodol a'i gofnodi'n ffurfiol gan aelodau staff priodol. Ymgymerir ag asesiadau risg penodol gyda'r holl ddisgyblion ag anghenion gofal iechyd penodol, gan ymgynghori'n llawn â'r rhiant/gofalwr a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol a chynnwys barn y dysgwr.

## 5. Rhannu gwybodaeth

Mae ein polisi gofal iechyd ar gael ar-lein ac fel copi caled ar gais.

Wrth rannu gwybodaeth ag eraill, rydym yn cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 yr UE.

Gofynnir i rieni/ofalwyr lofnodi ffurflen ganiatâd sy'n nodi'n glir y cyrff, yr unigolion a'r dulliau a ddefnyddir i rannu gwybodaeth feddygol dysgwyr. Bydd y dysgwr hefyd yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ar rannu gwybodaeth feddygol. Mae'r ysgol yn cadw cofnod o ba wybodaeth sy'n cael ei rhannu ac â phwy.

## 6. Gweithdrefnau a chadw cofnodion ar gyfer rheoli anghenion gofal iechyd dysgwyr

Mae'r ysgol a'r corff llywodraethu'n sicrhau bod manylion cyswllt gwasanaethau brys ar gyfer unigolion ag anghenion gofal iechyd yn cael eu hatodi i'w cynlluniau iechyd unigol. Cedwir cofnodion o'r wybodaeth ganlynol:

1. Cytundeb rhiant i'r sefydliad addysgol roi meddyginiaeth
2. Cytundeb y Pennaeth i roi meddyginiaeth
3. Cofnod o'r feddyginiaeth sy'n cael ei storio a'i rhoi i ddysgwr unigol
4. Cofnod o'r meddyginiaethau syn cael eu rhoi i bob dysgwr yn nhrefn y dyddiad
5. Cais i ddysgwr roi ei feddyginiaeth ei hun
6. Cofnod o hyfforddiant staff – rhoi meddyginiaethau
7. Adroddiad am ddigwyddiad meddygol
8. Gwrthod cymryd meddyginiaeth
9. Y Cynllun Gofal Iechyd Unigol

Bydd cofnodion newydd yn cael eu llenwi pan fydd newidiadau i feddyginiaeth neu ddos a byddant yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

Nodir y broses o lunio cynllun gofal iechyd unigol yn Atodiad 2.

## 7. Storio meddyginiaeth a dyfeisiau, cael mynediad iddynt a'u rhoi

### a) Cyflenwi meddyginiaeth neu ddyfeisiau

Nid ydym yn storio meddyginiaeth dros ben. Gofynnir i rieni ddarparu cyflenwad priodol o feddyginiaeth. Dylai'r feddyginiaeth fod yn y cynhwysydd gwreiddiol, wedi'i labelu ag enw'r dysgwr, enw'r feddyginiaeth, dosau ac amlder, a'r dyddiad dod i ben. Rydym yn derbyn meddyginiaethau a dyfeisiau rhagnodedig sy'n bodloni'r canlynol yn unig:

i. Maent yn gyfredol
ii. Mae'r cynnwys wedi'i labelu'n gywir ac yn glir
iii. Maent wedi'u labelu ag enw'r dysgwr arnynt
iv. Maent yn cynnwys cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer eu rhoi, eu storio a'r dos
v. Maent yn y cynhwysydd/pecyn gwreiddiol a ddosbarthwyd gan y fferyllydd (ac eithrio inswlin sydd ar gael yn gyffredinol drwy bin neu bwmp inswlin).

Nid ydym yn cyflenwi meddyginiaethau nas rhagnodir megis paracetamol hylifol, ac ni fyddwn yn rhoi asbrin neu ei ddeilliadau oni bai iddo gael ei ragnodi. Gall rhieni ofyn bod meddyginiaeth nas rhagnodir heblaw am asbrin yn cael ei storio gan yr ysgol, ond dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

i. Mae'n gyfredol
ii. Mae ei chynnwys wedi'i labelu'n gywir ac yn glir
iii. Mae label ag enw'r dysgwr arni
iv. Mae'n cynnwys cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer ei rhoi, ei storio a'r dos – gall y rhieni ddarparu'r rhain
v. Mae hi yn ei chynhwysydd/phecyn gwreiddiol.

**b) Storio, mynediad a chyflwyno**

Mae pob meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel, gan ddibynnu ar fath a defnydd y feddyginiaeth, a all gynnwys oeri. Mae'n bwysig i staff a dysgwyr wybod lle caiff eu meddyginiaeth ei storio a sut i gael mynediad iddi.

**i. Meddyginiaeth frys**

Rydym yn sicrhau bod meddyginiaeth frys megis yr anadlwyr a'r pinnau chwistrellu awtomatig ar gael yn hwylus ac nid yw dan glo. Os yw dysgwr yn gymwys i wneud hynny, gall gario ei feddyginiaeth ond ni ddylai ei throsglwyddo i berson heb awdurdod. Gall rhiant/gofalwr gyflwyno cais i ganiatáu i ddysgwr gario/roi ei feddyginiaeth ei hun a chaiff ei drafod â'r staff perthnasol. Os oes gan staff bryderon yna dylai'r rhiant/gofalwr drafod y rhain â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae unrhyw gais yn amodol ar adolygiad os tynnir sylw at fwy o bryderon/risgiau. Mae darparu meddyginiaeth frys a'i diogelwch hefyd yn rhan o'r broses o gynllunio gweithgareddau oddi ar y safle, gan gynnwys teithiau a gweithgareddau preswyl.

Mae'r ysgol hefyd yn cadw anadlwr salbutamol brys ar gyfer sefyllfaoedd lle nad yw dysgwr yn gallu dod o hyd i'w anadlwr ei hun. Mae'r arweiniad ar ddefnyddio anadlwyr salbutamol brys ar gael yn: Canllawiau ar y defnydd o anadlwyr salbutamol brys mewn ysgolion. Prynir anadlwyr brys o'n fferyllfa gymunedol leol.

ii. **Meddyginiaeth nad yw'n frys**

Cedwir unrhyw feddyginiaeth nad yw'n frys mewn lle diogel â rheolaethau tymheredd neu olau addas. Os yw'n gyffur a reolir, rhoddir mesurau diogelwch a rheolaethau ychwanegol yn ôl cyfarwyddyd staff iechyd arbenigol.

iii. **Gwaredu meddyginiaeth**

Pan na fydd eu hangen mwyach, dychwelir meddyginiaethau at rieni i drefnu i'w gwaredu'n ddiogel. Defnyddir blychau miniog ar gyfer gwaredu nodwyddau ac offerynnau miniog eraill, a gwneir trefniadau i'w gwaredu'n briodol.

**c) Rhoi meddyginiaeth**

i. Os yw'r dysgwr dan 16 oed, mae angen cael caniatâd ysgrifenedig rhieni i gynorthwyo neu roi meddyginiaethau rhagnodedig a rhai nas rhagnodir. Cofnodir unrhyw feddyginiaeth a roddir.
ii. Os bydd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi i'w chymryd ar amlder sy'n caniatáu i'r feddyginiaeth ddyddiol gael ei rhoi yn y cartref, dylai rhieni geisio gwneud hynny, megis cyn ac ar ôl ysgol a chyda'r hwyr. Bydd achlysuron pan na fydd hyn yn addas, fodd bynnag.
iii. Ni roddir asbrin neu ei ddeilliadau i ddysgwyr dan 16 oed oni bai iddo gael ei ragnodi iddynt.
iv. Oni bai fod cynllun cytunedig i'r dysgwr (16 oed a hŷn) roi ei feddyginiaeth ei hun, bydd aelod o staff yn rhoi unrhyw feddyginiaeth yn unol â'r cynllun gofal iechyd unigol.
v. Staff hyfforddedig yn unig fydd yn rhoi meddyginiaeth. Bydd symudiadau a lleoliadau'r staff hyfforddedig hyn bob amser yn cyd-fynd â'r dysgwyr maent yn eu cefnogi.
vi. Dylai staff wirio'r uchafswm dos a maint ac amser unrhyw ddosau a roddwyd yn flaenorol.
vii. Gall fod angen i oedolyn o'r un rhyw â'r dysgwyr roi gweithdrefnau meddygol penodol, a gall fod angen i ail oedolyn fod yn dyst i hyn. Ystyrir meddyliau a theimladau'r dysgwr ynghylch nifer a rhyw'r rheiny sy'n cynorthwyo wrth ddarparu gofal personol. Nid yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i fwy nag un person gynorthwyo.[4] Dylid cytuno ar hyn a'i adlewyrchu yn y cynllun gofal iechyd unigol ac asesiad risg.
viii. Mae gan yr ysgol bolisi gofal personol[5] a ddilynir, oni bai y cytunir ar drefniadau eraill ac y'u cofnodir yng nghynllun gofal iechyd unigol y dysgwr.
ix. Os bydd dysgwr yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth, dylai staff gofnodi hyn a dilyn eu gweithdrefnau diffiniedig, gan hysbysu rhieni cyn gynted â phosib. Os bydd dysgwr yn camddefnyddio unrhyw feddyginiaeth, dylid hysbysu ei rieni cyn

---

4 ://llyw.cymru/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-learners-safe/?skip=1&lang=cy

5 Gellir diffinio gofal personol fel unrhyw ofal sy'n ymwneud â golchi neu wneud gorchwyl i rannau personol y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei wneud eu hunain ond ni all rhai dysgwyr ei wneud oherwydd eu hoedran ifanc, anawsterau corfforol neu anghenion arbennig eraill. Mae enghreifftiau'n cynnwys gofal sy'n gysylltiedig ag ymataliaeth a rheoli'r mislif, yn ogystal â thasgau pob dydd megis cymorth gyda golchi, mynd i'r toiled neu wisgo. Maent hefyd yn cynnwys goruchwylio dysgwyr sy'n rhoi gofal personol iddynt eu hunain.

gynted â phosib. Dylai'r sefydliad addysg ofyn i rieni geisio cyngor gofal iechyd fel y bo'n briodol. Os na ellir cysylltu â rhieni ar unwaith, bydd angen i staff ystyried ceisio cyngor gofal iechyd ar unwaith.

x. Rhoddir gwybod i'r holl staff sy'n cefnogi gweithgareddau oddi ar y safle am ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Byddant yn derbyn yr wybodaeth angenrheidiol i sicrhau y gall staff hwyluso profiad cystal i'r dysgwr ag sy'n ymarferol ac yn rhesymol. Gall yr wybodaeth hon gynnwys materion iechyd a diogelwch, yr hyn y dylid ei wneud mewn argyfwng ac unrhyw gefnogaeth ychwanegol y mae ei hangen ar y dysgwr, gan gynnwys meddyginiaeth a chyfarpar.

## 8. Gweithdrefnau brys

Mae gan yr ysgol weithdrefnau ar waith ar gyfer ymdrin ag argyfyngau. Dylai staff wybod:

i. Pwy sy'n gyfrifol am y polisi a'r gweithdrefnau,
ii. Swyddogion cymorth cyntaf a enwebir a sut i ymdrin ag anghenion gofal iechyd cyffredin. Mewn sefyllfaoedd lle mae angen cymorth brys, dylid ffonio 999 ar unwaith.
iii. Lleoliad cofnodion gofal iechyd a manylion cyswllt brys dysgwyr.

Os oes gan ddysgwr gynllun gofal iechyd unigol, dylai ddiffinio ystyr argyfwng yn glir ac esbonio'r hyn y dylid ei wneud. Dylid rhoi gwybod i staff am symptomau a gweithdrefnau brys.

Dylai dysgwyr eraill yn yr ysgol hefyd wybod yr hyn y dylid ei wneud yn gyffredinol mewn argyfwng, megis hysbysu aelod o staff ar unwaith.

Os bydd angen mynd â dysgwr i'r ysbyty, bydd aelod o staff yn aros gyda'r dysgwr nes y bydd rhiant yn cyrraedd. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r ysbyty gyda hwy mewn ambiwlans. Dylai fod gan yr aelod o staff fanylion unrhyw anghenion gofal iechyd a meddyginiaeth hysbys.

## 9. Hyfforddiant

Darperir hyfforddiant i'r staff sy'n gwirfoddoli neu y cysylltir â hwy i gefnogi'r sawl ag anghenion gofal iechyd. Mae'r corff llywodraethu a'r Pennaeth yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i sicrhau y nodir nifer digonol o staff i ddiwallu anghenion gofal iechyd yr holl blant yn yr ysgol.

Wrth gynorthwyo dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, cydnabyddir nad oes angen hyfforddiant arbenigol ar gyfer llawer o ymyriadau, a rôl y staff yw hwyluso'r dysgwr i ddiwallu ei anghenion gofal iechyd ei hun.

Fodd bynnag, pan fo cynlluniau iechyd unigol yn adlewyrchu anghenion cymhleth sy'n gofyn i staff gael gwybodaeth a hyfforddiant priodol, darperir y rhain gan staff gofal iechyd neu staff arbenigol eraill. Mae Atodiad 1 yn darparu rhestr o staff iechyd y gellir cysylltu â hwy i ddarparu hyfforddiant mewn meysydd allweddol megis diabetes, asthma, alergeddau ac epilepsi. Rydym yn sicrhau y caiff hyfforddiant ei gofnodi a'i gadw'n gyfredol a bydd yr wybodaeth hon ar gael i'r ALI ar gais.

Ar gyfer plant â salwch sy'n cyfyngu ar eu bywyd, rydym yn gweithio'n agos gyda'r nyrs gofal lliniarol a rhennir y cynllun gofal lliniarol lefel uwch (os ceir caniatâd rhieni) â'r staff perthnasol rhag ofn y bydd dirywiad enbyd.

Cydnabyddir y gall yr holl staff, ni waeth a ydynt wedi gwirfoddoli i gynorthwyo neu gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, ddod i gysylltiad â dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Felly, mae gennym raglen hyfforddiant i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyflyrau cyffredin er mwyn sicrhau y cydnabyddir symptomau ac y deellir ble a phryd i geisio cymorth priodol. Mae gan yr awdurdod lleol gynllun hyfforddiant hefyd a ddatblygwyd gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gyfer ysgolion.

Mae'n gweithdrefnau sefydlu i sicrhau bod staff newydd a rhai dros dro'n ymwybodol o ba fesurau ataliol a brys sydd ar waith er mwyn iddynt allu cydnabod yr angen am ymyriad ac ymateb yn gyflym.

Os nad yw'r staff hyfforddedig sydd fel arfer yn gyfrifol am weinyddu meddyginiaeth ar gael, bydd y cynllun gofal iechyd unigol yn nodi trefniadau eraill.

## 10. Cymwysterau ac asesiadau

Ar gyfer dysgwyr ag anghenion gofal iechyd sy'n nesáu at asesiadau, gan gynnwys y rhai sy'n cael archwiliadau yn yr ysbyty neu gartref, bydd yr ysgol yn cysylltu â'r athro ysbyty neu'r athro cartref, yn enwedig pan fo'r dysgwr yn symud o'r cartref i'r ysbyty'n rheolaidd.

Bydd yr ysgol yn sicrhau:

i. Bod ceisiadau am drefniadau arbennig yn cael eu cyflwyno i'r cyrff dyfarnu cyn gynted â phosib.
ii. Bod newidiadau, addasiadau neu amser ychwanegol i ddysgwyr sefyll y profion darllen a rhifedd cenedlaethol yn seiliedig ar arferion dosbarth arferol ar gyfer anghenion penodol. Disgwylir i athrawon ddefnyddio eu barn broffesiynol i gefnogi dysgwyr.

## 11. Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)

Yn achos absenoldeb byr (yn debygol o bara am lai na 15 niwrnod ysgol), bydd yr ysgol yn darparu gwaith i'w gwblhau gartref, os bydd cyflwr y dysgwr yn caniatáu hynny, ac yn cefnogi'r dysgwr i ddal i fyny pan fydd yn dychwelyd. Os bydd yr absenoldeb yn debygol o barhau am fwy na 15 niwrnod ysgol, bydd yr ysgol yn cysylltu â'r awdurdod lleol er mwyn iddo allu trefnu addysg briodol heblaw yn yr ysgol.

Pan fydd absenoldeb yn ddisgwyliedig neu'n hysbys ymlaen llaw, dylai'r ysgol a'r awdurdod lleol weithio'n agos i ddarparu'r gwasanaeth addysg heblaw yn yr ysgol o ddechrau'r absenoldeb.

Mae gweithio'n agos rhwng athrawon cartref/ysbyty ac athrawon prif ffrwd yn ategu'r broses o ddarparu rhaglen addysgol effeithiol i'r dysgwyr. Fodd bynnag, gall rhieni/gofalwyr fod yn gyswllt gwerthfawr hefyd.

Gellir rhyddhau dysgwyr ag anghenion gofal iechyd cymhleth o'r ysbyty â chynllun gofal ysgrifenedig. Pan fo hyn yn digwydd, bydd y cynllun gofal ysgrifenedig yn cael ei integreiddio yn unrhyw gynllun gofal iechyd unigol. Adolygir y cynllun gofal iechyd cyn i'r dysgwyr ddychwelyd i'r ysgol.

## 12. Cludiant Ysgol

Darperir cludiant ysgol yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr awdurdod sy'n dilyn y ddogfen *Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol* (2014).

## 13. Adolygu polisïau, trefniadau a gweithdrefnau

Bydd y corff llywodraethu'n adolygu'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig bob blwyddyn neu mor aml ag y bo'n briodol, gan ddibynnu ar arweiniad a chylchlythyrau'r awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru.

Gall cynlluniau gofal iechyd unigol ofyn am adolygiadau amlach, gan ddibynnu ar anghenion gofal iechyd y disgybl. Bydd yr ysgol yn trefnu adolygiadau o gynlluniau gofal iechyd unigol ond byddant hefyd yn cynnwys yr holl randdeiliaid allweddol, y dysgwr, y rhieni/gofalwyr, gweithwyr addysg ac iechyd proffesiynol a chyrff perthnasol eraill.

## 14. Trefniadau yswiriant

Mae'r corff llywodraethu'n gyfrifol am sicrhau:

i. Bod yswiriant priodol ar waith i gynnwys gweithgareddau wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.
ii. Dylai lefel yr yswiriant adlewyrchu lefel y risg yn briodol.
iii. Gall fod angen trefnu yswiriant ychwanegol ar gyfer rhai gweithgareddau, e.e. gweithgareddau oddi ar y safle i ddysgwyr ag anghenion penodol.

Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod yswiriant priodol yn ei le i adlewyrchu lefel y risg gyffredinol, ond dylai ysgolion wirio gyda'r tîm yswiriant os bydd gweithgaredd yn gofyn am yswiriant ychwanegol. Mae'r polisi hwn wedi'i gyflwyno i yswirwyr yr awdurdod lleol hefyd er mwyn sicrhau bod cynnwys y polisi'n cael ei yswirio'n ddigonol.

## 15. Gweithdrefn gwynion

Gall dysgwr neu riant sy'n anfodlon ar y trefniadau gofal iechyd yn ein hysgol gyflwyno cwyn drwy wneud y canlynol:

i. Trafod ei bryderon â'r athro dosbarth/tiwtor cofrestru y dylid ymdrin ag unrhyw broblemau ag ef yn y lle cyntaf.
ii. Os nad yw hyn yn datrys y broblem, dylid sôn amdani wrth aelod o'r tîm arweinyddiaeth, a fydd, pan fo'n briodol, yn cyflwyno pryderon i'r Pennaeth.
iii. Er nad yw'n debygol, os nad yw hyn yn datrys y broblem, gall y rhiant gyflwyno cwyn ffurfiol gan ddefnyddio gweithdrefn gwynion yr ysgol.

## 16. Cynlluniau gofal iechyd unigol

Mae cynlluniau gofal iechyd unigol yn nodi pa gefnogaeth y mae ei hangen ar ddysgwr, ond nid oes angen cynllun gofal iechyd unigol ar bob dysgwr ag anghenion gofal iechyd. Mae cynlluniau gofal iechyd unigol yn hanfodol pan geir anghenion gofal iechyd cymhleth, newidiol a thymor hir neu pan fo risg uchel y bydd angen ymyriad brys. Mae Atodiad 2 yn amlinellu'r broses ar gyfer nodi a oes angen cynllun gofal iechyd unigol.

Y Pennaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod cynlluniau gofal iechyd unigol priodol a gweithdrefnau i ddatblygu'r rhain ar waith pan fo'u hangen.

Anfonir copi o bob cynllun gofal iechyd unigol at yr Uwch-athro Arbenigol, Tŷ'r Cocyd, Heol y Cocyd SA2 0FJ.

Darperir ffurflen enghreifftiol o gynllun gofal iechyd unigol yn Atodiad 3.

## 17. Arfer annerbyniol

Mae'r ysgol a'r corff llywodraethu'n cytuno â'r arfer annerbyniol a nodir yn nogfen arweiniol Llywodraeth Cymru *(Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd*, 215/2017). Nodir arfer annerbyniol yn Atodiad 4.

Rhoddir gwybod i staff am arfer annerbyniol drwy wybodaeth ar hysbysfyrddau a sesiynau briffio timau. Os oes angen, cânt hyfforddiant a/neu oruchwyliaeth briodol. Dosberthir gwybodaeth am arfer annerbyniol i'r holl staff fel crynodeb newyddion.

**Atodiad 1**

**Manylion cyswllt ar gyfer materion sy'n ymwneud â chynlluniau gofal iechyd unigol a hyfforddiant staff yr ysgol**

- **Asthma** - Gellir cysylltu â nyrs respiradol drwy'r llinell ar gyfer Cleifion Allanol Pediatrig 01792 285248
- **Gwybodaeth am alergeddau/anaffylacsis (heblaw am hyfforddiant Epipen) - mewn cyfarfod MDT**
  - i drefnu i gysylltu ag Ysbyty Singleton 01792 205666
- **Hyfforddiant Epipen** drwy'r nyrs a glustnodir i'r ysgol. Ar gyfer unrhyw ymholiadau eraill, ffoniwch Reolwr Tîm Nyrsys Ysgolion Abertawe - 01792 516588 / 07908371735
- **Iechyd Plant Cymunedol** 01792 517817
- **Diabetes** – Nyrsys arbenigol – 07814254485<br>07980 864288
- **Endocrinoleg/Diabetes** – 07817 497696
- **Adran Ddieteg** – 01792 516565
- **Epilepsi** – Nyrs Epilepsi - 07817 771743
- **Cyngor ar fwydo a llyncu/dysffagia** – Therapydd Iaith a Lleferydd 01792 517863
- **Tiwbiau bwydo** – Nyrs faeth 07800 963632
- **Gofal lliniarol** – Nyrs arbenigol - 07773 281621
- **Oncoleg** – Nyrsys arbenigol – 02920746377<br>02920716293

**Atodiad 2**

## Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol

**Nodi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd**

- Nodir dysgwr drwy ffurflen gofrestru neu ddull arall.
- Mae rhiant neu ddysgwr yn hysbysu'r ysgol am angen gofal iechyd.
- Cynhelir trafodaethau pontio mewn da bryd, e.e. wyth wythnos cyn diwedd y tymor neu symud i ysgol newydd.

↓

**Casglu gwybodaeth**

- Os oes posibilrwydd bod angen cynllun gofal iechyd unigol, dylai'r sefydliad addysg drafod hyn â'r rhiant a'r dysgwr.

↓

**Penderfynu a oes angen cynllun gofal iechyd unigol**

- Dylai'r ysgol drefnu cyfarfod â'r staff priodol, y rhieni, y dysgwr a'r clinigwyr priodol i benderfynu a yw anghenion gofal iechyd y dysgwr yn gofyn am gynllun gofal iechyd, neu a fyddai hyn yn amhriodol neu'n anghymesur. Os na ellir dod i gonsensws, dylai'r Pennaeth wneud y penderfyniad terfynol, y gellir ei herio drwy'r weithdrefn gwynion.

↓

**Os oes angen cynllun gofal iechyd unigol**

- Dylai'r ysgol, dan arweiniad y gweithwyr gofal iechyd priodol, y rhieni a'r dysgwr, ddatblygu'r cynllun gofal iechyd unigol mewn partneriaeth.
- Dylai'r ysgol nodi staff priodol i gefnogi'r dysgwr, gan gynnwys nodi unrhyw anghenion hyfforddiant a ffynhonnell yr hyfforddiant, a rhoi'r hyfforddiant ar waith.
- Dylai'r ysgol ddosbarthu'r cynllun gofal iechyd unigol i'r holl unigolion priodol.
- Dylai'r ysgol bennu dyddiad adolygu priodol a diffinio unrhyw sbardunau eraill ar gyfer adolygiad.

Yn y rhan fwyaf o achosion, yn enwedig o ran afiechydon tymor byr megis y rhai sy'n gofyn am wrthfiotigau, efallai na fydd angen cynllun gofal iechyd unigol manwl. Mewn amgylchiadau o'r fath, gall fod yn ddigon i gofnodi enw'r feddyginiaeth, y dos, yr amser rhoi ac unrhyw sgîl-effeithiau posib. Dylid cadarnhau'r gweithdrefnau hyn yn ysgrifenedig rhwng y dysgwr (pan fo'n briodol), y rhieni a'r ysgol.

Fodd bynnag, pan fo gan ddysgwr anghenion gofal iechyd parhaus neu ysbeidiol, efallai y bydd angen cynllun gofal iechyd unigol. Os yw'r anghenion hyn yn gymhleth ac mae'r dysgwr yn newid lleoliadau, yna dylai'r paratoadau ddechrau'n gynnar i helpu i sicrhau bod y cynllun gofal iechyd unigol ar waith ar ddechrau'r tymor newydd.

**Rolau a chyfrifoldebau wrth greu a rheoli cynlluniau gofal iechyd unigol**

Dylai cynllun gofal iechyd unigol fod yn hygyrch i bawb sy'n gorfod cyfeirio ato, gan gynnal y lefelau gofynnol o breifatrwydd. Dylai pob cynllun gynnwys gwybodaeth allweddol a chamau gweithredu gofynnol i gefnogi'r dysgwr yn effeithiol. Gall datblygu cynlluniau gofal iechyd unigol manwl gynnwys:

i. Y dysgwr
ii. Y rhieni
iii. Mewnbwn neu wybodaeth o ysgol flaenorol
iv. Gweithwyr gofal iechyd priodol
v. Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
vi. Y Pennaeth a/neu'r unigolyn cyfrifol dirprwyedig ar gyfer anghenion gofal iechyd ar draws y sefydliad
vii. Athrawon a staff cefnogi, gan gynnwys staff arlwyo
viii. Unrhyw unigolion â rolau perthnasol megis cydlynydd cymorth cyntaf, swyddog lles a chydlynydd anghenion addysgol arbennig.

Er y dylid teilwra'r cynllun i bob dysgwr unigol, gall gynnwys:

i. Manylion yr angen gofal iechyd a disgrifiad o'r symptomau
ii. Gofynion penodol megis gofynion deietegol, rhagofalon cyn gweithgareddau (e.e. cyn dosbarthiadau addysg gorfforol)
iii. Gofynion meddyginiaeth, e.e. dos, sgîl-effeithiau, gofynion storio, trefniadau cyflwyno
iv. Datganiad effaith (wedi'i lunio ar y cyd gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol ac athro) ynghylch sut mae cyflwr gofal iechyd y dysgwr a/neu'r driniaeth yn effeithio ar ei ddysgu a pha gamau gweithredu y mae eu hangen i liniaru'r effeithiau hyn
v. Camau gweithredu gofynnol
vi. Protocolau brys a manylion cyswllt
vii. Y rôl y gall y sefydliad addysg ei chwarae, e.e. rhestr o bethau i fod yn ymwybodol ohonynt
viii. Dyddiadau adolygiadau a sbardunau adolygiad
ix. Rolau staff penodol, e.e. cyswllt ar gyfer rhieni, staff sy'n gyfrifol am roi/oruchwylio meddyginiaeth, a threfniadau cyflenwi yn eu habsenoldeb
x. Cydsyniad/preifatrwydd/problemau o ran rhannu gwybodaeth sensitif
xi. Anghenion hyfforddiant staff, megis o ran cyflwyno gofal iechyd, cymhorthion a thechnolegau ymaddasol

xii. Cadw cofnodion – sut caiff ei wneud, a pha wybodaeth sy'n cael ei chyfleu i bobl eraill
xiii. Cludiant o'r cartref i'r ysgol – dyma gyfrifoldeb yr awdurdod lleol ac efallai y byddai'n ddefnyddiol iddo fod yn ymwybodol o gynllun gofal iechyd unigol y dysgwr a'i gynnwys, yn enwedig o ran argyfyngau.

Nod y cynllun yw nodi'r camau y bydd angen eu cymryd i helpu dysgwr i reoli ei gyflwr a goresgyn unrhyw beth sy'n ei rwystro rhag cyfranogi'n llawn mewn addysg. Dylai'r rhain sy'n llunio'r cynllun gytuno pwy fydd yn arwain, ond yr ysgol fydd yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau a'i roi ar waith. Mae llawer o sefydliadau trydydd sector wedi llunio cynlluniau gofal iechyd unigol penodol i gyflyrau a gellid defnyddio'r rhain.

Caiff cynlluniau eu hadolygu o leiaf unwaith bob blwyddyn neu'n amlach petai tystiolaeth newydd bod anghenion y dysgwr wedi newid. Wrth eu datblygu, dylid cadw lles y dysgwr mewn cof a sicrhau bod yr ysgol, gyda gwasanaethau arbenigol (os oes eu hangen), yn asesu'r risgiau i addysg, iechyd a lles cymdeithasol y dysgwr.

Pan fo gan ddysgwr ADY, dylai'r cynllun gofal iechyd unigol fod yn gysylltiedig ag unrhyw gynllun addysg unigol.

**Cydlynu gwybodaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y dysgwr a'r rhieni**

Mae'r ffordd y rhennir anghenion gofal iechyd dysgwr â gweithwyr cymdeithasol a gofal iechyd proffesiynol yn dibynnu ar eu gofynion a'r math o ysgol. Dylai'r cynllun gofal iechyd unigol esbonio sut rhennir gwybodaeth a phwy fydd yn gwneud hyn. Gall yr unigolyn hwn fod y cyswllt cyntaf ar gyfer rhieni a staff a byddai'n cysylltu ag asiantaethau allanol.

**Cyfrinachedd**

Mae'n bwysig bod aelodau perthnasol o staff (gan gynnwys staff dros dro) yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd eu dysgwyr, gan gynnwys newidiadau i gynlluniau gofal iechyd unigol. Bydd cynlluniau gofal iechyd unigol yn debygol o gynnwys gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol. Wrth rannu a storio gwybodaeth, rhaid cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a pheidio â thorri'r hawliau preifatrwydd na'r ddyletswydd i gadw cyfrinachedd sy'n ddyledus i'r unigolion.

**Rôl y dysgwr wrth reoli ei anghenion gofal iechyd ei hun**

Dylai dysgwyr sy'n gallu cymryd cyfrifoldeb am reoli eu meddyginiaethau a'u gweithdrefnau eu hunain gael eu hannog i wneud hynny. Dylai cynllun gofal iechyd unigol y dysgwr adlewyrchu hyn.

Pan fo'n bosib, dylid caniatáu i ddysgwyr gario eu meddyginiaeth eu hunain ac unrhyw ddyfeisiau perthnasol, neu allu cael mynediad i'w meddyginiaeth yn gyflym. Efallai fod angen goruchwyliaeth briodol ar rai dysgwyr.

Os bydd dysgwr yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth neu ymgymryd â gweithdrefn angenrheidiol, ni ddylai staff eu gorfodi i wneud hynny, ond dylid dilyn trefniadau diffiniedig y sefydliad, y cytunwyd arnynt yn y cynllun gofal iechyd unigol. Dylid hysbysu rheini cyn

gynted â phosib fel y gellir ystyried trefniad arall a dylid ceisio cyngor iechyd pan fo'n briodol.

Atodiad 3

# Ffurflen
# Cynllun Gofal Iechyd ar gyfer Disgybl ag Anghenion Meddygol

**Enw:**

**Cyfeiriad:**

**Dyddiad geni:**

**Enw'r ysgol:**

**Dosbarth:**

**Cyflwr meddygol:**

**Dyddiad llunio'r cynllun:**

**Dyddiad adolygu:**

## GWYBODAETH GYSWLLT

**Cyswllt Teulu 1**

**Enw:**

**Rhif ffôn:**

**(Gwaith):**

**(Cartref):**

**(Symudol):**

**Perthynas:**

**Cyswllt Teulu 2**

**Enw:**

**Rhif ffôn:**

**(Gwaith):**

**(Cartref):**

**(Symudol):**

**Perthynas:**

**Cyswllt Teulu 3**

**Enw:**

**Rhif ffôn:**

**(Gwaith):**

**(Cartref):**

**(Symudol):**

**Perthynas:**

**Meddyg Teulu**

**Enw:**

**Rhif ffôn:**

**<u>Cyswllt mewn Clinig/Ysbyty</u>**

**Enw:**

**Rhif ffôn:**

**Disgrifiwch y cyflwr meddygol a rhowch fanylion symptomau unigol y disgybl**

**Gofynion gofal dyddiol (e.e. cyn chwaraeon/yn ystod amser cinio):**

**Disgrifiwch yr hyn yw argyfwng ar gyfer y disgybl, a pha gamau i'w cymryd os bydd hyn yn digwydd:**

**Gofal dilynol:**

**Pwy sy'n gyfrifol mewn argyfwng (nodwch os yw'n wahanol ar weithgareddau oddi ar y safle)**

**Llofnod:**

**Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol…………………………………....      Dyddiad………………**

**Rhiant/Gofalwr ………………………………………………………………      Dyddiad………………….**

**Pennaeth ………………………………………………………….        Dyddiad…………………**

**CADY ………………………………………………………………….. Dyddiad…………………**

**Rwy'n caniatáu i'r cynllun gofal iechyd gael ei anfon at yr Uwch-athro Arbenigol – Tŷ'r Cocyd, Tŷ Cwm, Heol y Cocyd, Y Cocyd, Abertawe SA2 OFJ a'i storio'n ddigidol.**

**Llofnod:**

**Rhiant/Gofalwr……………………………………………………………      Dyddiad………………….**

**Ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dioddef o ddiabetes, dylid atodi'r cynllun gofal diabetes cenedlaethol i'r cynllun gofal iechyd unigol.**

## Cysylltu gyda'r Gwasanaethau Brys

### Gofyn am ambiwlans

Ffoniwch 999, gofynnwch am ambiwlans a byddwch yn barod gyda'r wybodaeth ganlynol

1. **Eich rhif ffôn sef** 01792 872403 (ysgol) neu eich rhif symudol os ydych yn defnyddio ffôn symudol

2. **Nodwch gyfeiriad yr ysgol/sefydliad sef** Ysgol Gyfun Gwyr, Stryd Talbot, Tregwyr

3. **Nodwch y côd post sef** SA4 3DB

4. **Nodwch eich union leoliad yn yr ysgol/sefydliad -**rhowch ddisgrifiad byr o ble rydych chi e.e. rydw i allan ar gae chwarae yr ysgol sydd union y tu cefn i'r prif adeiladau

5. **Nodwch eich enw**

6. **Nodwch enw'r plentyn a rhowch ddisgrifiad byr o symptomau'r plentyn**

7. **Hysbyswch y Ganolfan Rheoli Ambiwlans am y fynedfa orau a dywedwch y bydd rhywun yn cwrdd â'r criw ac yn mynd â hwy i'r lleoliad hwn**

8. **Peidiwch â rhoi'r ffôn i lawr nes i'r wybodaeth gael ei hailadrodd.**

9. **Siaradwch yn glir ac yn araf a byddwch yn barod i ailadrodd yr wybodaeth os gofynnir i chi wneud hynny.**

**Rhowch gopi wedi'i lenwi o'r ffurflen hon ger pob ffôn yn yr ysgol.**

**Atodiad 4**

## Arfer Annerbyniol

Nid yw'n arfer annerbyniol i wneud y canlynol:

i. Atal dysgwr rhag dod i'r ysgol o ganlyniad i'w anghenion gofal iechyd, oni bai y byddai'n debygol o beri niwed i'r dysgwr neu eraill petai'n dod.
ii. Atal dysgwr rhag cael mynediad hawdd i'w anadlwr neu feddyginiaeth arall, a'i atal rhag cymryd ei feddyginiaeth pan fo angen.
iii. Rhagdybio bod angen yr un driniaeth ar bob dysgwr â'r un cyflwr.
iv. Anwybyddu barn y dysgwr neu ei rieni/ofalwyr, neu anwybyddu tystiolaeth neu farn ynghylch gofal iechyd (er y gellir holi am y farn hon a cheisio barn ychwanegol heb oedi).
v. Anfon dysgwyr ag anghenion gofal iechyd adref yn aml neu eu hatal rhag aros am weithgareddau arferol, gan gynnwys cinio, oni bai y nodir hyn yn benodol yn y cynllun gofal iechyd unigol.
vi. Anfon dysgwr sy'n mynd yn sâl neu y mae angen cymorth arno i ystafell feddygol neu brif swyddfa ar ei ben ei hun neu gyda rhywun heb y gallu i'w fonitro'n iawn.
vii. Cosbi dysgwr am ei gofnod presenoldeb os bydd yr absenoldeb yn gysylltiedig â'i anghenion gofal iechyd. Ni ddylai 'absenoldebau awdurdodedig', gan gynnwys apwyntiadau gofal iechyd, amser i deithio i ysbyty neu apwyntiad, nac amser gwella o driniaeth neu salwch, gael eu defnyddio i gosbi dysgwr mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau, teithiau neu ddigwyddiadau dyfarniadau sy'n cael eu cymell mewn cysylltiad â chofnodion presenoldeb, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.
viii. Gofyn am addasiadau neu amser ychwanegol i ddysgwr yn hwyr yn y broses. Dylid cyflwyno cais am y rhain mewn da bryd. Dylid hefyd ystyried addasiadau neu amser ychwanegol sy'n angenrheidiol ar gyfer ffug-arholiadau neu brofion eraill.
ix. Atal dysgwyr rhag yfed, bwyta neu gymryd seibiannau i fynd i'r toiledau neu seibiannau eraill pryd bynnag y bo eu hangen er mwyn rheoli eu hanghenion gofal iechyd yn effeithiol.
x. Gofyn i rieni/ofalwyr, neu wneud iddynt deimlo bod rheidrwydd arnynt mewn ffordd arall, ddod i'r ysgol, ar daith neu i weithgarwch arall oddi ar y safle i roi meddyginiaeth neu ddarparu cefnogaeth gofal iechyd i'r dysgwr, gan gynnwys mynd i'r toiled.
xi. Disgwyl neu beri i riant roi'r gorau i weithio neu ymrwymiadau eraill oherwydd bod yr ysgol yn methu cefnogi anghenion gofal iechyd dysgwr.
xii. Gofyn i ddysgwr adael ystafell ddosbarth neu weithgaredd os oes angen iddo roi
meddyginiaeth nad yw'n bersonol neu fwyta bwyd yn unol â'i angen iechyd.
xiii. Atal neu greu rhwystrau diangen i gyfranogiad dysgwr mewn unrhyw agwedd ar ei addysg, gan gynnwys teithiau, e.e. drwy ofyn i riant ddod gyda'r dysgwr.

*(Adolygwyd: Gorffennaf 2025)*